Nodiadau i athrawon

Diwrnod y Rhif

# Sut mae mesur uchder eich ysgol (neu unrhyw goeden dal)

**Mae hwn yn brosiect Mathemateg gwych ar gyfer plant oed ysgol gynradd. Beth am ei wneud ar Ddiwrnod y Rhifau neu cyn hynny? Rhannwch eich lluniau a'ch fideos gyda ni.**



"POB LWC"
JOHNNY BALL

**Bydd angen y canlynol arnoch chi:**

- Rhywbeth mawr i'w fesur
- Ffon sydd dros fetr o uchder
- Tâp mesur
- Diwrnod heulog


**Sut mae'n gweithio:**

Mae'r gweithgaredd hwn yn defnyddio egwyddor trionglau tebyg.

Drwy fesur yn union o dan uchder mwyaf y goeden i ben y cysgod, yna rhannu hyd cysgod y ffon â hyd cysgod y goeden, byddwch yn canfod beth yw uchder y goeden mewn metrau gan gynnwys ffracsiynau degol.

**Camau'r gweithgaredd:**

1. Rhowch eich ffon yn y ddaear (gwnewch yn siŵr ei bod 1 metr o uchder)
2. Ar ddiwrnod heulog fe gewch gysgod y ffon a'r goeden neu'r adeilad
3. Mesurwch hyd y ddau gysgod
4. Gofalwch eich bod yn mesur cysgod y goeden yn union o dan y pwynt uchaf, hyd at ddiwedd y cysgod
5. Rhannwch hyd cysgod y ffon â hyd cysgod yr adeilad neu'r goeden
6. Fe gewch wybod beth yw uchder y goeden neu'r adeilad, mewn metrau a ffracsiynau o fetrau
7. Os byddwch yn ailadrodd yr ymarfer fis yn ddiweddarach, bydd yr haul ar ongl wahanol, ond dylai'r canlyniad fod yn union yr un fath o hyd
8. Gallech dreulio rhywfaint o amser yn y dosbarth, yn ymestyn y syniad o ddefnyddio trionglau tebyg i gyfrifo hydoedd




NSPCC | Man Charitable Trust

#numberday

Mae'r Diwrnod Rhifau'n cael ei gefnogi gan Man Group, dan arweiniad yr NSPCC.

©NSPCC 2024. Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 216401, Yr Alban SC037717 a Jersey 384. J20240070.